**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

8fed Chwefror, 2023.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Nos Lun nesaf, 13eg Chwefror, 2023 am 7.30 y.h. yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog.

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed IONAWR, 2023**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod y materion yn codi o'r cofnodion.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried y ceisiadau isod ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.
(a) Cais C22/1133/32/LL – estyniad i adeilad anifaeliaid – creu stofa slyri o dan llawr adeilad presennol yn Fferm Bryn Mawr, Brynmawr
(b) Cais C22/1079/32/LL – cais i newid defnydd sied a ganiatawyd i storio peiriannau ac offer amaethyddol i storfa dail ynghyd a chreu pwll tail – Caerau, Llangwnnadl
(c) Cais C22/1099/32/LL – cais ar gyfer codi to newydd uwchben iard fwydo a rhan o iard gasglu bresennol ynghyd ac estyniad i glamp silwair gyda tho drosto, gosod tanc elifiant a draen dwr oddi ar y to i ffrwd a gwaith cysylltiol – Trygarn, Sarn Mellteyrn.
(ch) Cais C23/0045/32/DT – estyniad unllawr i gynnwys gofod to mewnol – Cartrefle, Llangwnnadl.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.
(b) Derbyniwyd gwybodaeth gan y Peiriannydd Ardal Dwyfor fod gwaith o 'newid arwyddion 30/20 mya yn digwydd ym Motwnnog a Sarn, yn ystod y mis hwn' (dyddiad y llythyr 27/1/23)
(c) Cais am gefnogaeth gan Gyngor Cymuned Llanbedrog ynglyn a'r llifogydd ar A499
Copi'n amgaeedig. "B"
(ch) Cwyn fod yna or-yrru dros y 'speed bumps' ym Motwnnog yn ystod y dydd a'r nos a'r twrw gan rai o'r ceir yn amharu ar y trigolion.

7. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

8. **ADRODDIAD BLYNYDDOL – CWBLHAU ARCHWILIAD 2021-22.**
Copi'n amgaeedig. "C"

9. **AROLWG ANGHENION TAI BOTWNNOG**
**(a)** Copi o'r arolwg. "CH"
(b) Cynllun Prynu Cartref Gwynedd – e-bost Steffan Smith. "D"
Bydd copiau o'r poster gennyf yn y cyfarfod.

**10. CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MON – CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD**
E-bost gan Swyddog Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd.
Copi'n amgaeedig. "DD"

11. **ADRODDIAD DIWEDDARAF AR WASANAETHAU FASGWLAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU**
Datganiad newyddion 3ydd Chwefror, 2023, gan Gyngor Iechyd Cymuned.
Copi'n amgaeedig. "E"

12. **GWAITH BARBIO 2023-2024**
I gadarnhau'r telerau ar gyfer gwaith barbio 2023-24.
Copi'n amgaeedig. "F"

13. **GARDDWEST YM MHALAS BUCKINGHAM**
E-bost gan Un Llais Cymru.

Yn gywir,

Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**
**Y CYNGHORWYR**

| | | |
|---|---|---|
| Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffiths |
| Dylan Parry Jones | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Efan Thomas | Carys E. Williams | Glenys Williams |
| Iwan J. Williams | Siôn Williams | |